Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

11 Ionawr 2021

Annwyl Weinidog,

Efallai eich bod yn ymwybodol o'r anghydfod sy'n parhau i fynd rhagddo rhwng Nwy Prydain a'r Undeb GMB mewn perthynas â materion staffio, sydd wedi arwain at 5 diwrnod o weithredu diwydiannol gan Undeb GMB, i ddechrau ddydd Iau 7 Ionawr.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu, gan fod Nwy Prydain yn gyfrifol am weinyddu cynllun *NEST* Llywodraeth Cymru, y gallai'r anghydfod sy'n parhau i fynd rhagddo – ynghyd â'r gweithredu diwydiannol – effeithio ar y broses o gyflawni'r rhaglen.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynegi barn ar y graddau y mae'r gweithredu diwydiannol yn debygol o effeithio ar y broses o gyflawni'r cynllun *NEST*.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir,

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565